

Llywodraeth addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Adolygiad i weithrediad Llywodraeth Cymru o Ddeddf
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Geirfa

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol	Mae hon yn rhaglen bartneriaeth a arweinir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gefnogi pobl ifanc gyda chyfleoedd i ddysgu a gwella eu sgiliau arwain yng Nghymru heddiw ac yn y dyfodol.
Academi Wales	Academi Wales yw rhaglen arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n darparu ystod o ddatblygiadau arweinyddiaeth a rheolaeth ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Gellir dod o hyd i'w gwefan yma .
Academi Wales, Ysgolion Haf a Gaeaf	Mae rhaglenni arweinyddiaeth Academi Wales yn unigryw i Gymru ac yn cefnogi darparu "Ffyniant i Bawb" fel rhaglenni Cymru gyfan sy'n chwalu rhwystrau sefydliadol, yn galluogi Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, ac yn annog cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus.
Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol [Llywodraeth Cymru]	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i lunio adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gyda thueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol gysylltiedig.



Amcanion Llesiant	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) osod a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod llesiant. Rhaid iddynt wedyn gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn.
Archwiliad Dwys Gweinidogol [Llywodraeth Cymru]	Dull a ddefnyddiwyd gan Weinidogion Cymru i archwilio meysydd polisi penodol yn fanwl er mwyn nodi gwersi o'r gorffennol a dewis y ffordd fwyaf effeithiol ymlaen. Enghraifft o hyn yw Archwiliad Dwys i Goed a Phren.
Archwilio Cymru	Archwilio Cymru yw nod masnach y ddau endid cyfreithiol: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gan bob un ei bwerau a dyletswyddau penodol ei hun: • Yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio ac adroddi ar gyrff cyhoeddus Cymru. • Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.
Archwilydd Cyffredinol	Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei fod yn archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus ac yn adrodd ar sut maen nhw'n rheoli a gwario arian cyhoeddus. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldebau o dan y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys cynnal arholiadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus penodedig wedi gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf wrth osod a dilyn amcanion llesiant.



Arolwg Pobl [Llywodraeth Cymru]	Mae Arolwg Pobl yn arolwg blynyddol sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth y DU i edrych ar agweddau gweision sifil at a'u profiad o weithio yn adrannau'r llywodraeth. Mae Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru yn mesur ymgysylltiad gweithwyr ac yn anelu at wella perfformiad sefydliadol, darpariaeth gwasanaeth a llesiant staff.
Asesiad Effaith Integredig [Llywodraeth Cymru]	Mae asesu effaith yn ysgogi ac yn arwain llunwyr polisi i gasglu, ac os oes angen, i gyrchu tystiolaeth er mwyn gwella datblygiad polisi neu gynllun cyflawni, neu lywio newid cyfeiriad mewn polisi neu ddarpariaeth. Mae'n fethodoleg i helpu i ddatblygu a gweithredu polisi. Mae Asesiadau Effaith Integredig yn arf ar gyfer ystyried a dal yr effaith a nodwyd.
Atebolrwydd	Atebolrwydd yw rhwymedigaeth ar berson neu sefydliad i gyfiawnhau gweithredoedd i gorff arall o ran rhyw awdurdodiad ar gyfer y gweithgaredd hwnnw a roddir gan y corff hwnnw.
Blog Llunio Dyfodol Cymru [Llywodraeth Cymru]	Fe'i sefydlwyd i ganiatáu deialog gyda rhanddeiliaid ar y gwaith i osod Cerrig Milltir Cenedlaethol, diweddarau'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, a datblygu Adroddiad nesaf Tueddiadau'r Dyfodol i Gymru. Mae'n cynnwys cyfres o swyddi sy'n canolbwyntio ar Gerrig Milltir, Dangosyddion a Thueddiadau.
Bwlch Gweithredu	Y bwlch rhwng dyheadau polisi Llywodraeth Cymru a realiti eu gweithredu. Gall hyn fod oherwydd diffyg capasiti, hyfforddiant, adnoddau, mwy o ddryswch i ddarparwyr lleol ac ati.



Bwrdd [Llywodraeth Cymru]

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys 16 o aelodau, y ddau Anweithredol a Gweithredwyr. Mae'r Bwrdd yn cefnogi, herio a chynghori'r Ysgrifennydd Parhaol wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y caiff Gwasanaeth Sifil Cymru ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a Gweinidogion a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu'r Gweinidogion. Penodir aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn unol ag arfer gorau'r Gwasanaeth Sifil.

Rôl y Bwrdd yw darparu:

- Sicrwydd i'r Ysgrifennydd Parhaol wrth gyflawni ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.
- Cefnogaeth i'r Ysgrifennydd Parhaol i sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu i'r safonau uchaf o lywodraethu, rheolaeth ariannol, rheoli risgiau a phrosesu'r cyfrifon blynyddol;
- Cyngor strategol ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a
- Her i'r sefydliad a chynghori i'r Ysgrifennydd Parhaol ar strategaeth sefydliadol, dyluniad a chynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn addas i'r diben, gydag adnoddau digonol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y sefydliad.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd [Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#) o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i annog cydweithio ac integreiddio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddyletswydd i wella llesiant diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Eu haelodau statudol yw'r Cyngor Lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, ond rhaid gwahodd cyrff eraill, megis Gweinidogion Cymru a sefydliadau gwirfoddol perthnasol, i gymryd rhan.

Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru	Canllawiau i'w defnyddio wrth ddatblygu ac arfarnu cynigion trafndiaeth a hyrwyddir neu a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
Canllawiau Cyflawni Polisi [Llywodraeth Cymru]	Canllawiau polisi a ddarperir i lunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau a mentrau newydd y gellir eu cyflawni sy'n seiliedig ar ymgysylltu priodol a'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae'r canllawiau'n ymdrin ag agweddau megis dadansoddi a defnyddio tystiolaeth, ymgysylltu â pholisi, asesu effaith, deddfwriaeth ac egwyddorion llunio polisi.
Canllawiau ymgynghori [Llywodraeth Cymru]	Mae ymgynghori ffurfiol yn un ffordd o gydweithio ac i gyfrannu. Fe'i defnyddir yn aml gan Lywodraeth Cymru i gael barn y cyhoedd a sefydliadau eraill ar gynigion a phenderfyniadau amrywiol. Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau i gynghori swyddogion ar sut y dylid cynnal ymgynghoriadau.
Cyd-bwyllgorau Corfforaethol	Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn fforwm y bwriedir iddo alluogi swyddogaethau cyrff cyhoeddus dethol i gael eu cyflawni'n fwy effeithiol ac yn strategol ar lefel ranbarthol, gan wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau gwerthfawr. Mwy o wybodaeth yma.
Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru a Mwy (SDCC+)	Rhwydwaith proffesiynol o lunwyr polisi ac ymarferwyr sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn sefydliadau sector cyhoeddus, gan ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Cyfnewid Cenedlaethau'r Dyfodol	Roedd hwn yn gyfres o dri digwyddiad (un wyneb yn wyneb a dau ar-lein) dan arweiniad Llywodraeth Cymru i rannu arfer a dysgu ar wreiddio agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws gwasanaeth sifil Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.



Cymuned Lab UX [Llywodraeth Cymru]	Prosiect gan Lywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaeth labordy ymchwil defnyddwyr a phrofi defnyddwyr mewnol er mwyn cefnogi gwreiddio Ymchwil Defnyddwyr a Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr ym mholisiâu a gwasanaethau Llywodraeth Cymru. Mae cymhwyso'r dulliau hyn yn cefnogi mwy o gyfranogiad a chydweithrediad rhwng dinasyddion a rhanddeiliaid.
Cyngor Gweinidogol, Briffiau Gweinidogol	Y cyngor y mae gweision sifil yn ei baratoi ar gyfer Gweinidogion Cymru ar unrhyw fater penodol.
Cynllun Gwella Dysgu Parhaus [Llywodraeth Cymru]	Un cynllun cydlynol sy'n dwyn ynghyd y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud ac y mae'n bwriadu eu cymryd i ddyfnhau sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae wedi'i fframio o amgylch y fframwaith llywodraethu cynaliadwy y cytunwyd arno yn 2020.
Datblygu Cynaliadwy	Mae datblygu cynaliadwy yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.
Dull 'Tîm Cymru' [Llywodraeth Cymru]	Dull a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i wireddu uchelgais Cymru o ddod yn economi carbon isel a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Gyngor Partneriaeth Cymru a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.





Dyletswydd Llesiant ar gyrff cyhoeddus	Mae gan rai gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni datblygu cynaliadwy; dyma'r ddyletswydd Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau Llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion.
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r egwyddor yn cynnwys 5 ffordd o weithio y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu hystyried (gweler uchod).
Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Mae'r fforwm yn darparu trosolwg a chynghor ar weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff ei chadeirio gan Lywodraeth Cymru ac mae ei haelodaeth yn adlewyrchu cwrdd ac ehangder y Ddeddf a'r agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
Fframwaith Gallu Polisi [Llywodraeth Cymru]	Mae Fframwaith Gallu Polisi Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddylunio a chyflawni polisi. Mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar ddull Llywodraeth Cymru o lunio polisiau, gan gynnwys ffocws ar ymddygiadau llunio polisiau i sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy (gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio).



Fframwaith Perfformiad [Llywodraeth Cymru]	Mabwysiadwyd Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru fel y dull o fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn 2019. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar Fynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil ac mae wedi'i addasu i alinio â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori gyda'r Bwrdd, uwch reolwyr ac ymchwilwyr. Nod Fframwaith Llywodraeth Cymru yw ysgogi gwelliannau yn effeithiolrwydd sefydliadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad.
Grŵp Goruchwylio a Galluogi [Llywodraeth Cymru Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]	Sefydlwyd y Grŵp i gefnogi, galluogi a gweithredu fel catalydd ar gyfer arweinyddiaeth a chyfeiriad ffrydiau gwaith mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ei nod yw darparu trosolwg ar gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf.
Gweithdy Tri Gorwel	Mae'r Pecyn Cymorth Tri Gorwel wedi'i ddatblygu gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu cyrff cyhoeddus i osgoi gwneud penderfyniadau nad ydyn nhw'n sefyll prawf amser. Mae'n seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan Bill Sharpe a'r Fforwm Dyfodol Rhyngwladol.
Gwersyll sylfaen polisi [Llywodraeth Cymru]	Mae hwn yn gynnig hyfforddiant manwl i uwch lunwyr polisi (Dirprwy Gyfarwyddwr ac uwch), sy'n cynnwys modiwlau ar wahanol bynciau a gofynion sy'n ymwneud â llunio polisiau.



Holiadur Rheolaeth Fewnol [Llywodraeth Cymru]	Mae hwn yn holiadur y mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru ei lenwi'n flynyddol er mwyn rhoi hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg i'r Ysgrifennydd Parhaol a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y maent yn credu y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 123 yma .
Hyfforddiant i weithredu ar gyfer y Dyfodol	Hyfforddiant mewn technegau rhagwelediad a dyfodol i alluogi staff i ystyried tueddiadau ac effeithiau hirdymor yn fwy effeithiol.
Hyrwyddwr Bwrdd [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]	Aelod o'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Bwrdd yn ei rôl ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler rôl y Bwrdd uchod)
Is-adran Dyfodol Cynaliadwy [Llywodraeth Cymru]	Is-adran o fewn Grŵp Prif Swyddogion Gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi Gweinidogion i gyflawni eu hamcanion polisi ar gyfer agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r is-adran yn cynnwys cyfrifoldebau dros Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gwella gallu llunio polisiau a pholisiau o fewn Llywodraeth Cymru.
Labordy Dysgu [Llywodraeth Cymru]	Mae'r Labordy Dysgu yn system dysgu a datblygu ar-lein sydd ar gael i holl staff Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu ystod o adnoddau a chyfleoedd i alluogi staff i gymryd rhan mewn dysgu o unrhyw amgylchedd.
Llunio polisi	Y broses o ddatblygu a chyflawni polisiau mewn meysydd penodol (fel trafnidiaeth, datgarboneiddio, cydraddoldeb ac ati) yn enwedig gan lywodraethau a sefydliadau sector cyhoeddus.

Llunwyr polisi	Y gweision sifil sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu polisiâu.
LIC2025	LIC2025 yw rhaglen tair blynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad sefydliadol ac mae'n llwyfan ar gyfer y sgwrs gyda phawb sy'n gweithio yma am y newidiadau a'r gwelliannau y mae angen iddynt eu gwneud.
Meysydd Newid Corfforaethol	Wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r rhain yn saith set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus. Mae cymhwyso gofynion y Ddeddf at y gweithgareddau hyn yn debygol o sicrhau'r math o newid sydd ei angen yn fwyaf effeithiol. Y meysydd hyn yw Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Cynllunio'r Gweithlu (pobl), Caffael, Asedau, Rheoli Risg a Rheoli Perfformiad.
Nodau llesiant	Y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer llesiant yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys disgrifiad manwl o bob nod. Mae'r nodau yn set gyfannol o saith ac ni ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain.
Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes [Llywodraeth Cymru]	Yr Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes yw offeryn adrodd perfformiad corfforaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro cyflawniad Ymrwymadau Gweinidogol (Raglen Lywodraethu gan gynnwys amcanion llesiant). Mae'n darparu dull syml a chyson o gofnodi, monitro ac adrodd yn erbyn ymrwymadau a blaenoriaethau.
Panel Sicrwydd Grantiau [Llywodraeth Cymru]	Fe'i sefydlwyd ym mis Medi 2018 i roi cyngor, her a sicrwydd i reolwyr grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau grant newydd. Mae cyfle mewnol i sicrhau bod themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sylfaenol i ddatblygiad y grant.



Pensaernïaeth Dyfodol Cynaliadwy [Llywodraeth Cymru]	Mae hwn yn ddisgrifiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o sut mae angen iddi fod yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio.
Pum ffordd o weithio (egwyddor datblygu cynaliadwy)	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi, fel rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, bum ffordd o weithio y mae'n rhaid i Gyrff Cyhoeddus eu hystyried wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Y ffyrdd hyn o weithio yw Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys. Gallwch ddarllen mwy amdanynt yma .
Pwyllgor Gwaith [Llywodraeth Cymru]	Y Pwyllgor Gwaith yw fforwm gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol Llywodraeth Cymru ar lefel swyddogol. Mae'n rhoi cymorth i'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Gynghorydd Polisi i'r Rheolwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithredu o dan eu hawdurdod.
Rhaglen Lywodraethu [Llywodraeth Cymru]	Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi amcanion ac ymrwymïadau Llywodraeth Cymru dros y cyfnod llywodraethu.
Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd (OECD)	Mae'r OECD yn sefydliad rhyngwladol sy'n gweithio gyda llywodraethau, llunwyr polisi a dinasyddion i sefydlu safonau rhyngwladol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dod o hyd i atebion i ystod o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma .
Sicrwydd	Hyder bod rhwymedigaethau penodol wedi'u bodloni. Defnyddir hwn yn yr Adroddiad yng nghydestun Atebolrwydd.
Sicrwydd [Fframwaith Sicrwydd Llywodraeth Cymru]	Mae fframwaith sicrwydd Llywodraeth Cymru wedi'i ddatblygu i roi sicrwydd digonol, cyson, parhaus a dibynadwy ar stiwardiaeth sefydliadol a rheoli'r risgiau mawr i lwyddiant sefydliadol a darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, cost-efeithiol.

**Un Gwasanaeth
Cyhoeddus
Cymraeg**

Ymagwedd at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd â'r nod o greu sector cyhoeddus mwy integredig a diwylliant sy'n agored ac yn dryloyw ac sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, drwy gydweithredu a rhannu gwerthoedd.

**Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Cymru**

Tramshed Tech
Stryd Pendyris
Caerdydd CF11 6BH
0292 167 7400
cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

futuregenerations.wales/cy/